Chwiorydd Aberduar

Fe fydd chwiorydd Aberduar yn dathlu 70 o flynyddoedd o wasanaeth eleni, ac fe ddaw'r aelodau ynghyd, ac ychydig o rai eraill fu'n ganolog i'r gwaith dros y blynyddoedd, i'r festri ar y 5ed o Dachwedd i swper. Mae'r tocynnau ar gael am £5 gan Hannilia neu Ogwen.

Arwerthiant Seion

Cofiwch am Arwerthiant Blynyddol Seion yn y festri ar 29ain o Dachwedd am 3 o'r gloch. Mae'n flwyddyn ddathlu yn Seion hefyd: 60 o flynyddoedd yr arwerthiant. I nodi'r achlysur gwahoddwyd y Parch Wynn Vittle yn ôl i agor, ac fe fydd te Cymreig, a chacen ddathlu, a chroeso mawr i bawb.

Diolch i bob un sy'n trefnu dyblygu a dosbarthu'r *Deufis*.

Cysylltiadau'r eglwysi ar y we:

Cofiwch am y wefan:
www.bedyddwyrgogleddteifi.org—
Beth ydyn ni am ei roi lan arni?

Hefyd y cyfrif trydar *(twitter)*

@BedyddGogTeifi

a'r grwpiau *facebook* Aberduar, Bethel Silian, Brynhafod a Noddfa

Cylch Darllen

Cynhelir y Cylch Darllen am 10.30 yn festri Noddfa. Croeso i rai newydd ymuno gyda ni am baned a darllen, ac yna, sgwrs, am argraffiadau, ac ystyr, rhan o'r Beibl. Y thema eleni: Credaf…

8 Hydref: Genesis 15
12 Tachwedd: Eseia 43

Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd

Bwriadwn gynnal yr oedfa weddi flynyddol ar brynhawn Llun y 3ydd o Dachwedd am 1.30 yn Aberduar: mwy o newyddion i ddilyn.

Caersalem

Dros y cwpl o fisoedd nesaf ar adeg yr oedfaon, fe fydd aelodau Caersalem yn trafod dyfodol yr eglwys, ac mae croeso i'r holl aelodau ymuno yn y trafodaethau hyn.

Newyddion etc i'r gweinidog erbyn **16 Tachwedd:** Galilea, 14 Cae Coedmor, Cwmann SA48 8EH, 01570 423442, jilltomos@tesco.net

Deufis

Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi **Hydref a Tachwedd 2014**

Trefn oedfaon y Sul

Mae'r oedfaon yn gyhoeddus a chroeso i bob un fynychu unrhyw un o'r oedfaon sy'n gyfleus. Mae'r amseroedd yn gywir wrth fod y Deufis yn dod allan, ond os ydych am gael y manylion diweddaraf, beth am ddilyn @BedyddGogTeifi ar Drydar (Twitter)?

5 Hydref		
Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun
12 Hydref		
Aberduar	10.00 y bore	Mrs Dwynwen Teifi
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun
19 Hydref		
Aberduar	10.00 y bore	Doniau'r eglwys
Noddfa	10.00 y bore	Oedfa unedig i Noddfa, Caersalem a Bethel dan ofal y Parchg Athro Densil Morgan
26 Hydref		
Aberduar	10.00 y bore	Mr Gerwyn Morgan
Bethel	10.15 y bore	
Brynhafod	1.30 y prynhawn	
Seion	3.00 y prynhawn	

drosodd/...

Trefn y Suliau (parhad)

2 Tachwedd		
Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun
9 Tachwedd		
Aberduar	10.00 y bore	Parchg Wynn Vittle
Seion	1.30 y prynhawn	Oedfa unedig i Seion a Brynhafod dan ofal Mr Silyn Thomas
Caersalem	2.00 y prynhawn	Oedfa unedig i Fethel, Caersalem a Noddfa, dan ofal y Parchg Glandwr Roberts
16 Tachwedd		
Noddfa	9.30 y bore	
Aberduar	11.00 y bore	
Caersalem	2.00 y prynhawn	
23 Tachwedd		
Aberduar	10.00 y bore	Mr Arwyn Pierce
Bethel	10.15 y bore	
Brynhafod	1.30 y prynhawn	Cymun
Seion	3.00 y prynhawn	Cymun
30 Tachwedd	*****sylwer y newid lleoliad*****	
Caersalem	10.30 y bore	Oedfa unedig i'r Cylch
Rhaghysbys 7 Rhagfyr		
Aberduar	*10.00 y bore*	*Cymun*
Caersalem	*2.00 y prynhawn*	*Cymun*
Noddfa	*3.30 y prynhawn*	*Cymun*

Oedfa eciwmenaidd

20 Tachwedd 2014
Noddfa Llanbedr PS
7 yr hwyr
Croeso i bawb

Diolchgarwch Ysgol Sul Noddfa

Er hwylustod i'r plant a'u teuluoedd cynhelir oedfa Ddiolchgarwch yr Ysgol Sul yn Noddfa ar nos Iau 16eg o Hydref am 6.30 yr hwyr. Dewch yn llu!

Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion, cyrddau hanner blynyddol ar y 4ydd o Dachwedd 2014...

Oedfa Bicnic

Daeth teuluoedd Noddfa ynghyd i Oedfa Bicnic ar Sul cyntaf mis Medi, a mwynhau addoli a phicnic a chwarae wedyn gyda'n gilydd. Diolch am bob cyfraniad i wneud y prynhawn mor arbennig. Byddai'n braf o beth meddwl am gael Oedfa Bicnic bob wythnos!

Astudiaethau Beiblaidd

Mae ein dyled yn fawr i'r Parchg Athro Densil Morgan am gytuno unwaith eto i gynnal yr astudiaethau beiblaidd a gynhelir, drwy wahoddiad caredig Ann a Densil, ar eu haelwyd yn y Gilfach, ar nosweithiau Mercher am 7 yr hwyr. Y maes eleni fydd y llythyr at y Colosiaid:

Nos Fercher 8 Hydref : Colosiaid 1: 1-8
Nos Fercher 22 Hydref: Colosiaid 1: 9-23
Nos Fercher 29 Hydref: Colosiaid 1: 24-9; 2:1-5
Nos Fercher 12 Tachwedd: Colosiaid 2: 6-23
Nos Fercher 26 Tachwedd: Colosiaid 3:1-25
Nos Fercher 10 Rhagfyr: Colosiaid 4:1-18

Croeso i bawb

Menna Machreth

Edrychwn ymlaen at groesawu atom Dr Menna Machreth Llwyd, cydlynydd cenhadaeth yr Undeb, i Noddfa gyda'r hwyr ar y 14eg o Hydref, i ysgogi trafodaeth ar bwnc ein rhan ni yng nghenhadaeth Crist.

Diolchgarwch

2 Hydref	Seion	7 yr hwyr	Parchg Stephen Morgans, Trefilan
6 Hydref	Bethel	7 yr hwyr	Parchg Judith Morris, Aberystwyth
9 Hydref	Caersalem	7 yr hwyr	Mrs Delyth Morgans Phillips
15 Hydref	Aberduar	2 y prynhawn a 7 yr hwyr	Parchg Peter Cutts, Caerfyrddin
16 Hydref	Noddfa	6.30 yr hwyr	Oedfa Ddiolchgarwch yr Ysgol Sul